CYNGOR DINAS CASNEWYDD

ARCHWILIAD O'R CYFRIFON

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adrannau 29 a 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:

1. O 16 Gorffennaf 2018 tan 10 Awst 2018, gan gynnwys y dyddiadau hynny (ond ac eithrio pob dydd Sadwrn a dydd Sul) rhwng 9.00am a 4.30pm gall unrhyw berson â diddordeb, drwy wneud cais i'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, Gwent, NP20 4UR ddod i weld a gwneud copïau o gyfrifon y Cyngor a enwir uchod yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, gan gynnwys yr holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau cysylltiedig â hwy. Gallant hefyd gael copïau o'r cyfrifon a dogfennau, er y codir tâl am nifer o gopïau ac efallai y bydd rhaid trefnu apwyntiad.

2. Ar neu ar ôl 13 Awst 2018 am 9.00am, bydd Archwilydd Allanol y Cyngor, ar gais etholwr llywodraeth leol yr ardal y mae a wnelo'r cyfrifon â hi, yn rhoi cyfle i'r etholwr neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau iddo am y cyfrifon a gall unrhyw etholwr neu ei gynrychiolydd ddod gerbron yr Archwilydd yng Nghyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, Gwent NP20 4UR a gwneud unrhyw wrthwynebiad i unrhyw un o'r cyfrifon.

3. Ni ellir cyflwyno gwrthwynebiad dan baragraff 2 uchod oni bai bod hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad i'w gynnig sy'n nodi ar ba sail y'i gwneir wedi'i gyflwyno ymlaen llaw i'r Archwilydd Allanol yn (Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ) a'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, Gwent NP20 4UR.

Mr Meirion Rushworth
Pennaeth Cyllid
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig,
Casnewydd
De Cymru
NP20 4UR